WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2011

**Cyfeirnod:** 609A2011

# Statws yr adroddiad

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Matthew Coe, Tracy Veale, Deborah Woods, Andrew Strong, Malcolm Latham ac Elaine Matthews.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus | 10 |
| Mae cyflawni arbedion cost cylchol yn dipyn o her i Ganolfan Ganser Felindre, ond mae'r Ymddiriedolaeth a'r Ganolfan Ganser yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12 | 11 |
| Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd | 12 |
| Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu | 14 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwella'r amser a gymerir i weithredu argymhellion yr archwiliad perfformiad | 15 |
| Nododd astudiaethau cwmpasu Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau staffio'r Ymddiriedolaeth a Gwasanaeth Gwaed Cymru y byddai'n werth gwneud gwaith archwilio manylach | 15 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 17 |
| Ffi archwilio | 18 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2011.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, sy'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir a chytunir ar yr adroddiadau hyn gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Mae negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Er fy mod yn cydnabod bod y broses o baratoi cyfrifon terfynol wedi gwella'n sylweddol eleni, gellir gwneud gwelliannau pellach eto i ategu ei phapurau gweithio.

**6.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol; ac
- mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli mewnol digonol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod lle i gryfhau rhai agweddau ymhellach.

**7.** Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i reolaeth ariannol a chyllidebol dda.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd fel rhan o waith Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae sicrhau arbedion costau cylchol yn dipyn o her i Ganolfan Ganser Felindre, ond mae'r Ymddiriedolaeth a'r Ganolfan yn rhagweld sefyllfa gytbwys ar gyfer 2011-12;
- yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd;
- er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwella'r amser a gymerir i weithredu argymhellion yr archwiliad perfformiad; a
- nododd astudiaethau cwmpasu Swyddfa Archwilio Cymru i drefniadau staffio radiotherapi'r Ymddiriedolaeth a Gwasanaeth Gwaed Cymru y byddai'n werth gwneud mwy o waith archwilio manwl.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Rhagfyr 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd. Rydym yn argymell yn gryf y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng Rhagfyr 2010 a Thachwedd 2011.

**12.** Rwy'n cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004 sy'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

**a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

**b)** bodloni fy hun y gwariwyd yr arian a drafodir yn y cyfrifon mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a

**c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o fy Asesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, oedd yn archwilio'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni lle bo'n briodol.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon; a
- threfniadau ar gyfer sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus.

**16.** Yn olaf, mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2010-11. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi gwarged neu ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth gyflwyno'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â fy Nghod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- trefniadau rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth; a'r
- systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Roedd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol; fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach yn rhai o feysydd y broses baratoi

**21.** O dan ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion sy'n deillio o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y

materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 6 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r negeseuon allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Negeseuon allweddol a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Negeseuon allweddol |
|---|
| • Nid oedd unrhyw addasiadau i ardystiad ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.<br>• Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.<br>• Cafwyd rhai camddatganiadau wedi'u cywiro mewn perthynas â:<br>– ailddosbarthu balansau Llywodraeth Cymru;<br>– cyfrifo mynegeion; a<br>– chynnwys 'Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr' i egluro effaith cyfrifo trwy gyfuno.<br>• Mae'r broses o baratoi cyfrifon terfynol wedi gwella'n sylweddol eleni. Fodd bynnag, roedd gennym rai pryderon am elfennau ansoddol arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr Ymddiriedolaeth. Cynhaliwyd adolygiad Sicrhau Ansawdd cadarn o'r datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol. Er ein bod yn cydnabod y cyfeiriad cadarnhaol hwn, mae yna le i wneud rhagor o welliannau wrth symud ymlaen i wella prydlondeb papurau gwaith, sydd â chysylltiad clir â thystiolaeth ategol, ac i ba raddau mae staff cyllid ar gael ai peidio.<br>• Trafodwyd ac adroddwyd ar faterion pwysig gyda rheolwyr mewn perthynas ag oedi wrth dderbyn gohebiaeth trydydd parti ynglŷn â chyfalafu asedau anghyffwrddadwy yn briodol, materion oedd angen eu cyflwyno i sylw'r Pwyllgor Archwilio.<br>• Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. O gymharu â blynyddoedd blaenorol, cawsom ymatebion prydlon a defnyddiol i'r mwyafrif o'n hymholiadau; fodd bynnag, bu rhywfaint o oedi mewn meysydd penodol a gafodd effaith ar yr archwiliad.<br>• Nid oes unrhyw faterion eraill pwysig i'r arolygiaeth o'r broses adrodd ariannol sydd angen i ni eich hysbysu amdanynt.<br>• Ni ddaethom o hyd i unrhyw wendidau perthnasol yn eich trefniadau ariannol mewnol nad ydym eisoes wedi'ch hysbysu amdanynt.<br>• Roedd un mater i adrodd arno ym maes llywodraethu sef yr adolygiad o Gronfa Ailbrisio'r Ymddiriedolaeth a gafodd ei gwblhau'n derfynol ym mis Mai 2011, er ei fod wedi'i grybwyll yn ein Llythyr Archwilio yn 2007-08. |

**22.** Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth welliannau sylweddol i'w amserlen ar gyfer prosesau cau'r cyfrifon, eu paratoi a'u harchwilio a gyfrannodd at well darpariaeth yn 2010-11. Er mwyn cyflawni'r amserlen hon, darparu'r gwasanaeth gofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhoi cyfrif priodol ynglŷn â chreu NWIS, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried sut i gynllunio'r broses ddiwedd blwyddyn gydol 2010-11, gyda chyfarfodydd rheolaidd gydag archwilwyr mewnol ac allanol a thîm Cyllid Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bu amserlen fanwl ar gyfer cau'r cyfrifon, eu paratoi a'u harchwilio yn gymorth i ddosbarthu'r llwyth gwaith yn fwy cyfartal ledled y tîm Cyllid. Cyfrannodd hyn yn gadarnhaol at y broses o gau'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

23. Ar y cyfan, mae ansawdd y papurau gwaith a'r llwybr archwilio wedi gwella o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, gellir gwella'r ymarfer adolygu dadansoddol o hyd. Mae adolygiad dadansoddol yn ddull rheoli defnyddiol, yn enwedig ar gyfer rheoli cyllidebau, a dylid ystyried ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn er mwyn ysgafnhau'r llwyth gwaith ar ddiwedd y flwyddyn.

24. Roeddem yn falch o gael nodi gwelliant sylweddol yn y trefniadau sicrhau ansawdd. Adolygodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr holl ddatganiadau, nodiadau a phapurau gwaith ategol. Cyfrannodd y broses hon at welliannau sylweddol yn ansawdd y papurau gwaith, y llwybr archwilio, y broses o ddogfennu penderfyniadau a pharatoi nodiadau; ac arweiniodd hyn at lai o addasiadau i'r archwiliad.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli mewnol digonol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod angen cryfhau rhai agweddau ymhellach

25. Yn ystod yr archwiliad, ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig, na'r systemau rheoli mewnol. Fodd bynnag, roedd yna feysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Er nad oedd y rhain yn effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi'r cyfrifon terfynol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i gryfhau'r rheolaeth fewnol ymhellach.

26. Mae'r prif feysydd rheoli ariannol mewnol sydd angen eu cryfhau yr adroddwyd amdanynt wrth yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn rheolaidd rhwng Canolfan Ganser Felindre a chyrff eraill a sefydlu gweithdrefnau priodol i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n amserol;
- cysoni'r taenlenni monitro incwm â system Oracle FMS;
- dogfennu'r adolygiad o achosion busnes i nodi asedau sydd angen eu dadgydnabod; a
- chytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau aseiniadau Archwiliad Mewnol ac adroddiadau.

27. Darparodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Caerdydd a'r Fro wasanaeth archwilio mewnol i'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2010-11. Rydym wedi asesu eu gwaith ac yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol GIG Cymru. Roedd y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cefnogi barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd system reoli fewnol yr Ymddiriedolaeth, fel yr adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2011.

28. Cynhaliwyd adolygiad o system cyfrifyddu ariannol SUN, y system ariannol Oracle newydd a'r seilwaith TG lleol sy'n sail i'r systemau fel rhan o'n gwaith yn 2010-11. Hefyd, gwnaethom waith dilynol ar ein hadolygiad yn 2009-10 o'r mesurau rheoli lleol sy'n bodoli ar gyfer system Cofnodi Staff Electronig (ESR) y Gyflogres. Ar sail ein gwaith, daethom i'r casgliad bod seilwaith TGCh yr Ymddiriedolaeth sy'n cefnogi'r systemau ariannol hyn yn gyfredol ar y cyfan, gyda threfniadau cymorth da ar waith, ond bod angen gwella rhai mesurau rheoli amgylcheddol.

### Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i drefniadau rheoli ariannol a chyllidebol effeithiol

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged wrth gefn o £90,000 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, o ganlyniad i drefniadau rheoli ariannol a chyllidebol effeithiol. Er ei bod yn ofynnol i dair adran yr Ymddiriedolaeth wneud arbedion costau, roedd hyn yn dipyn o her i Ganolfan Ganser Felindre. O ganlyniad, mae angen gwneud gwaith pellach yn y Ganolfan i wella'r broses o sicrhau arbedion cost a nodir wrth symud ymlaen.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus

**29.** Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi cynnal amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i fy helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd a wneir yn y gwaith o gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad i gyflawni ei tharged o fantoli'r gyllideb;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r 'meysydd datblygu' a nodwyd gennym yn Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- adolygu'r trefniadau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u sefydlu i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu;
- asesu'r broses y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio a chynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar yr adolygiad o adnoddau dynol a'r astudiaeth llywodraethu gwybodaeth; a
- chynnal astudiaethau cwmpasu ar staffio gwasanaeth radiotherapi'r Ymddiriedolaeth, trefniadau prisio presgripsiynau a Gwasanaeth Gwaed Cymru i nodi a fyddai'n werth cynnal gwaith archwilio manwl pellach.

**30.** Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Mae cyflawni arbedion cost cylchol yn dipyn o her i Ganolfan Ganser Felindre, ond mae'r Ymddiriedolaeth a'r Ganolfan Ganser yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12

**31.** Roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth reoli bwlch ariannol o £2.722 miliwn i gyflawni ei tharged o fantoli'r gyllideb yn 2010-11. Roedd gan dair adran yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i arbed costau ar gyfer 2010-11, ac ar y cyfan cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yr arbedion gofynnol i gyflawni gwarged o £90,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr arbedion ar gyfer y tair adran fel a ganlyn: £791,000 ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru, £85,000 ar gyfer yr adran Gorfforaethol a £1.846 miliwn ar gyfer Canolfan Ganser Felindre. Cyflawnodd Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r adran Gorfforaethol warged uwch na'u targedau arbedion ar gyfer y flwyddyn; fodd bynnag, roedd y sefyllfa ariannol yng Nghanolfan Ganser Felindre yn cyflwyno mwy o her.

**32.** Sefydlwyd Bwrdd Adfer Ariannol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre ar ddechrau 2010-11. Bu'r grŵp, oedd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, yn cyfarfod bob pythefnos gydol y flwyddyn i fonitro a goruchwylio'r broses adfer. Cyflawnodd yr adran £251,000 o arbedion cylchol a £1.665 o arbedion anghylchol, a nododd ddiffyg o £174,000 ar gyfer 2010-11. Un o'r prif resymau am ddiffyg diwedd blwyddyn y Ganolfan oedd y gwariant ychwanegol diwedd blwyddyn y cytunwyd arno o £143,000 ar eitemau anghylchol hanfodol mewn perthynas â rheoli heintiau a materion risg.

**33.** Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwarged bach cyffredinol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, ni chyflawnwyd yr holl gynlluniau gwella costau yng Nghanolfan Ganser Felindre. Mae'r Bwrdd Adfer Ariannol wedi'i ddatblygu fel Grŵp Cynaliadwyedd yn 2011-12 a bydd hi'n bwysig i'r grŵp hwn ddeall pam nad oedd cynlluniau arbedion penodol wedi'u cyflawni yn ystod 2010-11 er mwyn nodi cynlluniau realistig wrth symud ymlaen.

**34.** Mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth gyflawni arbedion o £2.200 miliwn ar sail gylchol yn 2011-12, gan gymryd y bydd patrymau cyllido cyfredol yn parhau. Mae'r lefel hon o arbedion wedi'i nodi yn y Cynllun Ariannol Blynyddol, ac yn y cynlluniau adrannol. Mae'r gwaith o nodi a monitro cynlluniau gwella costau, gan gefnogi'r nodau darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pum mlynedd, wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae yna le i wella amserlen paratoi cynlluniau arbedion manwl. Mae'n bwysig bod y cynlluniau arbedion penodol yn cael eu nodi'n gynharach yn y flwyddyn ac yn ddigon manwl i gael eu costio'n gywir.

**35.** Er bod pob adran yn gyfrifol am sicrhau arbedion costau, mae'r her ariannol fwyaf yn wynebu Canolfan Ganser Felindre. Mae'n ofynnol i'r Ganolfan sicrhau arbedion o £1.384 miliwn yn 2011-12, sy'n 62.9 y cant o darged cyfanswm arbedion yr Ymddiriedolaeth.

**36.** Er mwyn sicrhau'r lefel hon o arbedion, mae'r Strategaeth Ariannol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre yn 2011-12 yn cynnwys Strategaeth Gynaliadwyedd gyda rhaglen newid dwy flynedd. Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn 2010-11 ac yn ceisio sefydlu grwpiau rheoli sy'n canolbwyntio ar y cleifion i nodi newidiadau priodol y gellid eu gwneud ar hyd llwybr y cleifion i leihau costau. Mae'r rhaglen newid yn cynnwys naw cynllun newid cynaliadwyedd wedi'u llunio gan swyddogion penodol o fewn yr adran. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u rhannu yn gynlluniau cylchol (£0.941 miliwn) ac anghylchol (£0.443 miliwn). Yn y gorffennol, mae gorddibyniaeth wedi bod ar arbedion anghylchol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Mae'r Ymddiriedolaeth a rheolwyr y Ganolfan yn ymwybodol o'r angen i nodi arbedion cylchol flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac o ganlyniad i hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi dau Reolwr Moderneiddio yn y Ganolfan yn ddiweddar i adolygu prosesau a sicrhau gwelliannau yn ansawdd llwybr y cleifion.

**37.** Ym mis Ebrill 2011, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrth Lywodraeth Cymru fod arbedion 'heb eu nodi' o £0.500 miliwn wedi'u cynnwys yn y cynlluniau arbedion ar gyfer Canolfan Ganser Felindre. Roedd y sefyllfa yr un fath ym mis Hydref; ond mae arbedion anghylchol wedi'u nodi bellach i alluogi'r Ganolfan i ragweld y bydd yn adennill costau am y flwyddyn.

**38.** Erbyn mis 6, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi sicrhau arbedion o £0.973 miliwn. Mae hyn £0.131 miliwn yn is na'r arbedion a ragwelwyd o £1.104 miliwn ar yr adeg hon o'r flwyddyn. O'r diffyg hwn, mae £0.121 miliwn yn gysylltiedig â gorwariant Canolfan Ganser Felindre. Er hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cyflawni ei tharged arbedion a mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**39.** Er ei bod yn ymddangos bod mecanweithiau digonol ar waith ar gyfer adrodd yn rheolaidd ac amserol ar y rhaglenni gwella costau i'r uwch dimau rheoli adrannol, ac i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, dylid ystyried adolygu'r ffordd y cofnodir arbedion o fewn y cyfriflyfr ariannol cyn gynted ag y bydd y cynlluniau wedi'u nodi ac y cytunir arnynt. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn y cyfriflyfr yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar y rhaglenni gwella costau ac yn nodi'n gliriach a ydynt yn cael eu cyflawni ai peidio.

## Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010 ond erys heriau penodol o hyd

**40.** Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r meysydd datblygu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd ac wedi dod i'r casgliad bod cynnydd cyffredinol da wedi'i wneud ond erys heriau penodol o hyd.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei phroses cynllunio ariannol ac yn cydnabod bod angen gweithio ymhellach i wella'r gwaith o fonitro Cytundebau Lefel Gwasanaeth corfforaethol ac i sicrhau cysondeb cofnodion pwyllgorau

**41.** Daeth fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i gryfhau ei threfniadau rheoli ariannol i'r casgliadau canlynol:

- tra bod peth cynnydd wedi'i wneud i wella'r broses cynllunio ariannol, mae angen gwneud gwaith pellach i wella'r gwaith o fonitro perfformiad Cytundebau Lefel Gwasanaeth corfforaethol; ac
- mae peth gwelliannau wedi bod yn ansawdd cofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2011, fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â rhai amrywiadau rhwng cyfarfodydd amrywiol y Bwrdd a'r Pwyllgorau er mwyn gwella cysondeb.

**Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu, mae angen gwneud gwelliannau pellach mewn nifer o feysydd allweddol**

**42.** Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed i gryfhau'r trefniadau llywodraethu wedi canfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud y canlynol:

- atgyfnerthu ei strategaeth gorfforaethol ac amcanion strategol adrannol o fewn y Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol a ddiweddarwyd ym mis Awst 2011; mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod hon yn broses barhaus a bydd angen ei mireinio ymhellach wrth ddatblygu a chytuno ar strategaethau gwasanaethau;
- cydnabod pwysigrwydd diweddaru'r trefniadau rheoli perfformiad cyfredol yn fframwaith cadarn i gefnogi'r gwaith monitro perfformiad integredig ar draws pob lefel o'r sefydliad a chanolbwyntio ar y gweithgarwch hwn fel rhan o ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol yr Ymddiriedolaeth;
- cynnydd da i benodi pobl ar gyfer swyddi gweithredol dros dro allweddol mewn nifer o feysydd, ond mae angen penodiadau pellach i sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd yn gyflawn; a
- chryfhau nifer o strwythurau a phrosesau rheoli risg sy'n sail i'r gwaith o ddatblygu cofrestr risgiau corfforaethol; mae'r trefniadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach a bwriedir eu cwblhau yn gynnar yn 2012.

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ymhellach nifer o'i swyddogaethau 'galluogi' sy'n ei chynorthwyo i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ond araf fu cynnydd o ran diweddaru strategaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac asedau ystadau'r Ymddiriedolaeth**

**43.** O ran y meysydd a nodwyd yn ein gwaith yn 2010 fel rhai oedd angen eu gwella mewn perthynas â'r ffactorau sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio'i hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, canfyddodd fy adolygiad o'r cynnydd bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud y canlynol:

- diweddaru ei chynlluniau gweithlu yn 2011 i gyfuno'r cynlluniau moderneiddio a gwella gwasanaethau a amlinellir yn y Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol; mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ailfodelu ei chynlluniau gweithlu er mwyn cefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau;

- datblygu cynllun gweithredu caffael 2011-12 i gefnogi cynllun gweithredu strategol gwasanaethau caffael Cymru gyfan, ond araf fu cynnydd y gwaith i gwblhau strategaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac asedau ystadau'r Ymddiriedolaeth;
- peth cynnydd i ymestyn cyrhaeddiad a dylanwad y gwaith caffael ledled yr Ymddiriedolaeth; fodd bynnag, gellir gwneud gwelliannau pellach mewn nifer o feysydd;
- cydnabod pwysigrwydd partneriaethau ac mae'n gweithio'n galed gyda rhanddeiliaid i sicrhau canlyniadau dymunol; caiff cyfrifoldebau am weithgareddau gweithio mewn partneriaeth eu dyrannu i staff priodol yn yr Ymddiriedolaeth; a
- dechrau cryfhau trefniadau'n ddiweddar o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru er mwyn gallu ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhoddwyr gwaed drwy benodi Pennaeth Casglu Gwaed a llunio cynlluniau i sefydlu fforwm rhoddwyr.

## Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i sicrhau bod manteision llawn y contract meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu

**44.** Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd pan ysgrifennais fy adroddiad:

- roedd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosesau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, ond nid oeddent yn ddigon cadarn eto:
  - tra bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynllunio swyddi'n flynyddol, nid oedd y mwyafrif o feddygon ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre wedi cael adolygiad cynllun swydd yn ystod y flwyddyn flaenorol;
  - defnyddir data gweithgareddau'n adeiladol i lywio'r adolygiad o gynllunio swyddi, er bod rhai meddygon ymgynghorol wedi crybwyll anawsterau wrth ganfod mesurau canlyniadau priodol; ac
  - mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio templed cynllunio swyddi safonol, ond nid oedd hyn wedi'i gwblhau'n llawn yng Nghanolfan Ganser Felindre, ac roedd yn cyfyngu ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddeall materion sy'n deillio o gynlluniau swyddi yn effeithiol.
- roedd y berthynas waith yn dda ar y cyfan rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr, ond nid yw'r contract yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau; ac
- roedd meddygon ymgynghorol yn credu bod eu cyfleusterau, fel cymorth ysgrifenyddol, gofod swyddfa a chyfarpar TG, yn foddhaol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellir gwella'r amser a gymerir i weithredu argymhellion yr archwiliad perfformiad

**45.** Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r broses i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio yn y 12 mis diwethaf, mae yna le i wella ymhellach.
- Er bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, mae angen gwneud rhagor o gynnydd mewn sawl maes. Gellir gwella'r amser a gymerir i roi argymhellion o archwiliadau perfformiad ar waith.

**46.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r broses a'r cynnydd mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n codi o waith archwilio blaenorol mewn meysydd darparu gwasanaethau penodol. Dengys canfyddiadau'r gwaith dilynol ar yr astudiaeth Adnoddau Dynol a'r astudiaeth Llywodraethu Gwybodaeth y gellir gwella'r amser a gymerir i roi argymhellion archwiliadau perfformiad ar waith.

## Nododd astudiaethau cwmpasu Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau staffio'r Ymddiriedolaeth a Gwasanaeth Gwaed Cymru y byddai'n werth gwneud gwaith archwilio manylach

**47.** Fel rhan o'm rhaglen gwaith archwilio allanol yn 2010, nodais y byddai'n werth cynnal ymarferion cwmpasu byr i allu deall trefniadau'r Ymddiriedolaeth yn well. Cynheliais ddwy astudiaeth gwmpasu i drefniadau prisio presgripsiynau a staffio gwasanaethau radiotherapi'r Ymddiriedolaeth. Nod yr ymarferion cwmpasu oedd pennu a fyddai gwaith archwilio manylach yn fuddiol yn y maes hwn.

**48.** Mae'r gwaith hwn wedi dangos y byddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa ar astudiaeth fanylach o'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau radiotherapi. Bydd yr archwiliad yn archwilio trefniadau staffio ac adnoddau radiotherapi er mwyn nodi a oes cyfle i reoli'r rhain yn fwy effeithiol ac effeithlon ar ôl buddsoddiadau diweddar.

**49.** I'r gwrthwyneb, deuthum i'r casgliad na fyddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa'n uniongyrchol ar astudiaeth fanylach o'r trefniadau prisio presgripsiynau. Deuthum i'r casgliad hwn gan fod yr uned prisio presgripsiynau wedi symud o drefniadau cynnal Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru y mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol amdanynt i bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ers 1 Ebrill 2011. Hefyd, yn 2012 rwy'n bwriadu dechrau archwiliad gwerth am arian ehangach o drefniadau rheoli meddyginiaethau ledled GIG Cymru. Diben yr astudiaeth rheoli meddyginiaethau fydd canfod cyfleoedd i ddefnyddio meddyginiaethau'n fwy effeithlon tra'n cynnal safonau gofal o ansawdd uchel. Bydd hyn yn ymgorffori meysydd a nodir yn yr astudiaeth gwmpasu a fyddai'n elwa ar ymchwiliadau pellach.

50. Fel rhan o'm rhaglen gwaith archwilio allanol yn 2011, nodais hefyd ei bod hi'n werth cynnal astudiaeth gwmpasu fer o Wasanaeth Gwaed Cymru. Deuthum i'r casgliad y byddai'r Ymddiriedolaeth yn elwa ar astudiaeth fanylach o drefniadau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gynnar yn 2013. Bydd y gwaith yn edrych ar ganlyniadau'r rhaglen moderneiddio newid i geisio cael sicrwydd y bydd y rhain yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Moderneiddio tâl: contract meddygon ymgynghorol y GIG | Mawrth 2011 |
| Astudiaeth gwmpasu: trefniadau staffio gwasanaethau radiotherapi | Gorffennaf 2011 |
| Astudiaeth gwmpasu: prisio presgripsiynau | Gorffennaf 2011 |
| Adolygiad dilynol o’r cynnydd a wnaed yn gweithredu argymhellion archwiliadau perfformiad blaenorol | Awst 2011 |
| Astudiaeth gwmpasu: Gwasanaeth Gwaed Cymru | Tachwedd 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mai 2011 |

Hefyd, ceir nifer o archwiliadau perfformiad sy’n dal ar y gweill yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain isod, gydag amcan o ddyddiad ar gyfer cwblhau’r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau posibl |
|---|---|
| Adolygiad o wasanaethau radiotherapi | Rhagfyr 2011 |
| Adolygiad sy’n canolbwyntio ar gwsmeriaid o wasanaethau TG (a arferai gael ei ddarparu gan Atebion Iechyd Cymru) | Ionawr 2012 |
| Adolygiad o drefniadau ansawdd data Canolfan Ganser Felindre | Ionawr 2012 |
| Adolygiad o drefniadau i sicrhau ymgysylltu clinigol da | Chwefror 2012 |
| Adolygiad dilynol o gontract moderneiddio tâl meddygon ymgynghorol a’r astudiaethau arlwyo mewn ysbytai | Chwefror 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 ffi archwilio arfaethedig o £175,947 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail fod peth gwaith yn dal ar y gweill, yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk